Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Llywodraeth Cymru

6 Chwefror 2019

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 30C ar gyfer y rheoliadau a enwir uchod, yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2019.

Hoffwn dynnu eich sylw at bryderon sydd gennym ynghylch y Rheoliadau hyn.

Mae'r datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau bod y diwygiadau yn y Rheoliadau hyn i gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â deddfwriaeth y DU neu Brydain Fawr y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â hi a bod maes pwnc y ddeddfwriaeth, sef symud anifeiliaid a mesurau iechyd ataliol sy'n ymwneud â symud anifeiliaid, mewn cysylltiad â Chymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Fodd bynnag, nid yw'r datganiad yn nodi'r effaith y gallai'r Rheoliadau hyn ei chael, naill ai ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru nac ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30C.3(ii).

Gofynnwn i chi roi eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig y mae'r Rheoliadau yn effeithio arnynt.

Hoffwn dynnu eich sylw hefyd at fân faterion eraill gyda'r datganiad ysgrifenedig.

Mae'r Rheoliadau, yn Atodlen 2, yn dirymu "Commission Decision 2006/65/EC on certain protection measures in relation to intra-Community trade in poultry

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

intended for restocking of wild game supplies". Mae'n ymddangos bod gwall yng nghyfeirnod Penderfyniad y Comisiwn fel y'i nodir, ac y dylai ddarllen "2006/605/EC".

Hefyd, mae'r datganiad ysgrifenedig yn cyfeirio at y cyfeirnod anghywir yn ei restr o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n cael ei dirymu, ond mae hefyd yn cynnwys cyfeiriad dyblyg at y Penderfyniad y Comisiwn hwn (gyda'r cyfeirnod cywir) yn yr adran o'r enw "Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys".

Byddwn yn ddiolchgar i gael ymateb ac eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig y mae'r Rheoliadau yn effeithio arnynt erbyn 14 Chwefror 2019.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Yn gywir



**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.